

Mae TAC ac S4C wedi bod yn trafod sut orau i gael gorolwg o gostau cynhyrchu er mwyn cadarnhau gwerth am arian. Penderfynwyd y byddai'n fuddiol derbyn mwy o wybodaeth gan gwmnïau ac i gysoni rhai elfennau megis ffi rheoli a gweinyddiaeth. Gofynnir i gwmnïau felly ddilyn y canllawiau isod wrth drafod ffi ar gyfer rhaglen. Bydd TAC ac S4C yn adolygu'r drefn ymhen deunaw mis (Rhagfyr 2014).

Adeg cyflwyno manylion pris/cyllideb	Bydd y comisiynydd yn trafod syniadau a gyflwynir gan gwmnïau ac os oes diddordeb yn y syniad bydd S4C yn gofyn am bris a chyllideb er mwyn parhau'r drafodaeth.	
Math o gyllideb	Ffurf safonol 36 atodlen – gweler linc am enghraifft. <a href="http://www.s4c.co.uk/production/downloads/forms/cyllideb-pro-forma.xls">http://www.s4c.co.uk/production/downloads/forms/cyllideb-pro-forma.xls</a>	Ni fydd angen yr un manylder ar gyfer ail gyfresi lle nad yw'r cynnwys yn amrywio yn sylweddol. Yn yr un modd ni fydd angen yr un manylder ar gyfer cyllidebau sy'n £30k neu is oni bai bod yna reswm penodol bod angen mwy o fanylion.
Lefel gwybodaeth	<p>Gofynnir i gwmnïau gynnwys manylion megis nifer dyddiau a chyfraddau ar gyfer y personnel a'r adnoddau a restrir yn y gyllideb.</p> <p>Gofynnir i gwmnïau hefyd gynnwys dadansoddiad o gost elfennau unigol lle y gwneir trefniant gydag un darparwr - ee costau darpariaeth stiwdio, OB ayyb</p>	<p>Er mwyn medru cael gorolwg o gostau gwahanol elfennau'r broses gynhyrchu ar draws y diwydiant gofynnir i gwmnïau sicrhau bod y costau yn ymddangos yn yr atodlenni priodol. Yn fras disgwyliwr bod:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cost personel yn cael eu nodi o dan atodlenni ar gyfer personel (atodlenni 6 i 17) ) a</li> <li>• cost offer o dan yr atodlenni ar gyfer offer (atodlenni 21 a 27)</li> <li>• cost Yswiriant Cenedlaethol a Thâl Gwyliau o dan atodlen 18</li> <li>• cost OB a stiwdio o dan atodlen 23 (neu fe ellir darparu copi o'r manylion gan y cwmni)</li> <li>•</li> </ul> <p>Fel arfer ni fydd angen defnyddio'r atodlenni canlynol atodlen 17 (Criw - Eraill) atodlen 22 (Adnoddau – Criwiau/Cyfarpar) atodlen 26 ( Ffilm – ôl gynhyrchu, oni bai bod y cynhyrchiad yn cael ei gynhyrchu ar ffilm) atodlen 36 (is-deitlo/Perfformiadau Theatr)</p>

Trafod pris/cyllideb	Bydd S4C yn gofyn am gyllideb lawn wrth drafod y pris cyn penderfynu comisiynu ai peidio.	Wrth drafod ffi drwydded ar gyfer rhaglen bydd S4C yn edrych ar gyfanswm cost y rhaglen yn y lle cynta' yna edrych ar unrhyw elfen sy'n edrych yn anghyson neu'n wahanol i'r arfer a thrafod hynny ymhellach gyda'r cwmni gan gymryd natur y rhaglen i ystyriaeth.  Y bwriad fydd edrych ar y prif elfennau sy'n gyrru'r gost ac amrywiaethau o gymharu gyda'r hyn sy'n arferol mewn cyllidebau.
Ffi Rheoli	Hyd at uchafswm o 7% o'r costau uniongyrchol (sef y costau yn atodlenni 5 i 33 yn y gyllideb safonol)	Fe fyddai'n rhesymol disgwyl canrannau is ar gyfer cytundebau hir dymor yn dibynnu ar natur, patrwm cynhyrchu a hyd y cynhyrchiad
Gweinyddiaeth	Hyd at uchafswm o 3% o'r costau uniongyrchol (sef y costau yn atodlenni 5 i 33 yn y gyllideb safonol)	Bydd cost cyfrifydd cynhyrchu a staff sy'n gweithio'n benodol ar elfennau gweinyddol y cynhyrchiad yn medru cael eu cynnwys fel llinell ar wahân. Bydd unrhyw gost ychwanegol a all ddeillio o anghenion arbennig y cynhyrchiad i'w trafod yn unigol. Fe fyddai'n rhesymol disgwyl canrannau is ar gyfer cytundebau hir dymor yn dibynnu ar natur, patrwm cynhyrchu a hyd y cynhyrchiad
Yswiriant	Rhwng 0.75% a 1.00% o'r gyllideb fel arfer yn dibynnu ar anghenion y cynhyrchiad.	Bydd unrhyw gost ychwanegol a all ddeillio o anghenion arbennig y cynhyrchiad i'w drafod yn unigol. Nid oes angen cynnwys cost cerddoriaeth fasnachol/llyfrgell nag archif wrth gyfrifo cost yswiriant.
Adroddiadau	Gofynnir am adroddiad cost gyda phob cais am arian	Gofynnir i gwmnïau ddarparu adroddiad cost terfynol o fewn 4 mis i gyfleu'r tâp.
Archwilio	Bydd cynyrchiadau yn cael eu harchwilio er mwyn cymharu costau terfynol y cynhyrchiad gyda'r amcan yn y gyllideb wreiddiol.	Bydd cynyrchiadau yn cael eu dewis a'u dethol yn dibynnu ar werth y cynhyrchiad a'r amrywiaeth rhwng y gost a'r gyllideb wreiddiol.